Ordnance Survey® Arolwg Ordnans®

Arolwg Ordnans/Ordnance Survey
Romsey Road
SOUTHAMPTON
United Kingdom
SO16 4GU

Canolfan Gysylltu Cwsmeriaid: 0845 337 3133
Ffacs: (+44) 023 8079 2615
Ffôn testun: 023 8079 2906
(pobl sydd â nam ar eu clyw yn unig, os gwelwch yn dda)
Gwefan: www.ordnancesurvey.co.uk

Coordinator letter and checklist

For Wales

Ein cyf: FM9W

Annwyl Gydlynydd Mapiau Rhad ac am Ddim

Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11 oed – 2008

Mae'n bleser gen i amgáu'r mapiau Explorer® rhad ac am ddim ar raddfa 1:25 000 y gwnaethoch eu harchebu ar ran eich disgyblion Blwyddyn 7/Primary 7.

Er mwyn helpu i redeg y broses o ddosbarthu mapiau'n ddidrafferth yn eich ysgol, rydym wedi darparu rhestr wirio ar eich cyfer, sydd i'w gweld dros y dudalen.

Cystadleuaeth genedlaethol: cyfle i ennill diwrnod allan gyda Time Team

Rydym yn argymell eich bod yn dosbarthu'r mapiau rhad ac am ddim i'r plant cyn gynted ag sy'n ymarferol. Mae hyn yn arbennig o bwysig eleni er mwyn sicrhau bod gan y disgyblion ddigon o amser i roi cynnig ar y gystadleuaeth i ddisgyblion. Y dyddiad cau ar gyfer y gystadleuaeth yw 31 Mawrth 2009.

Addysgu â mapiau rhad ac am ddim yr Arolwg Ordnans. Adnodd yw hwn a gyhoeddwyd mewn ymateb i adborth o flynyddoedd blaenorol. Darperir un copi wedi'i argraffu i athrawon fesul pob 25 map a archebir ar gyfer disgyblion. Gellir lawrlwytho copïau ychwanegol unrhyw bryd o http://freemaps.ordnancesurvey.co.uk/freemapsfor11yearolds/index_welsh.html

Diolch am gymryd rhan yn y fenter gyffrous hon. Dymunwn bob llwyddiant i'ch disgyblion, a llawer o hwyl wrth ddefnyddio'r mapiau.

Yr eiddoch yn gywir

Roger Jeans
Rheolwr Addysg

Rydym yn falch o fod yn ddeiliaid achrediadau Cynllun Masnachwyr Teg mewn Gwybodaeth, Buddsoddwyr mewn Pobl a'r Symbol Anabledd

Busnes yn y Gymuned GWOBRAU 2008

Mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion 11–oed – 2008

Rhestr wirio i Gydlynwyr Mapiau Rhad ac am Ddim

Ein cyf: FM10W

Cam 1	Gwiriwch gynnwys eich pecyn, a sicrhau ei fod yn cynnwys:
	• Y teitl map cywir rydych chi'n ei ddisgwyl, a'r nifer gywir ohonynt. • Sticeri label enw MapZone® ar gyfer pob disgybl. • Llyfryn Darllen map heb drafferth yn y byd ar gyfer pob disgybl. • Llythyr i rieni/gwarcheidwaid ar gyfer pob disgybl. • Cyfarwyddiadau ar gyfer dosbarthu mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 7/Primary 7. • Copïau athrawon o *Addysgu â mapiau rhad ac am ddim yr Arolwg Ordnans*.
Cam 2	Rhannwch y mapiau, y sticeri MapZone, y llyfrynnau *Darllen map heb drafferth yn y byd* a llythyrau i rieni/gwarcheidwaid yn setiau dosbarth ar gyfer eich disgyblion Blwyddyn 7/Primary 7.
Cam 3	Darparwch set dosbarth o adnoddau i bob athro dosbarth Blwyddyn 7, ynghyd â llungopi o'r daflen â'r teitl *Cyfarwyddiadau ar gyfer dosbarthu mapiau rhad ac am ddim i ddisgyblion Blwyddyn 7/Primary 7*.
	• Cytunwch ymysg eich gilydd ar y dyddiad(au) y bydd y plant yn cael y mapiau rhad ac am ddim – **dylai hyn fod cyn gynted â phosibl ar ôl iddynt gyrraedd, ac yn bendant cyn pen chwe wythnos, fel y nodir yn y telerau a'r amodau.** • Cytunwch ymysg eich gilydd ar sut y bydd copïau i athrawon yn cael eu dosbarthu, a sawl copi dros ben y dylid eu cadw yn yr ysgol ar gyfer addysgu a dysgu yn y dyfodol. • Tynnwch sylw pob athro at delerau ac amodau'r cynnig. Gellir gweld y telerau a'r amodau llawn yn http://freemaps.ordnancesurvey.co.uk/freemapsfor11yearolds/index_welsh.html • Os byddwch am ddychwelyd unrhyw fapiau am unrhyw reswm, anfonwch nhw at: Ordnance Survey, W01 Warehouse and Despatch, Romsey Road, Southampton, SO16 4GU a nodwch 'Free maps Returns' arnyn nhw'n glir.

Os ydych chi'n cael unrhyw broblemau â'ch archeb, cysylltwch â'n llinell gymorth ar 0845 337 3133. Mae'r llinellau ar agor rhwng 8.30 am a 5.30 pm, o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, ar wahân i wyliau'r banc.

E-bost: freemapenquiries@ordnancesurvey.co.uk

NEU ysgrifennwch at *Free maps for 11-year-olds* yn y cyfeiriad dros y dudalen.

Busnes yn Gymuned GWOBRAU 2008